# Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru – Cofnodion

## Dydd Mawrth, 24 Mawrth 2026, 09:30-10:30 MS Teams

**Yn bresennol**

**Gweinidogion Llywodraeth Cymru**

Jayne Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai – Cadeirydd
Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

Y Cyng. Lis Burnett (Bro Morgannwg)
Y Cyng. Dimitri Batrouni (Casnewydd)
Y Cyng. Andrew Morgan (Rhondda Cynon Taf)
Y Cyng. Rob Stewart (Abertawe)
Y Cyng. Paul Griffiths (Sir Fynwy)
Y Cyng. Gary Pritchard (Ynys Môn)
Y Cyng. Simon Knoyle (Castell-nedd Port Talbot)

**Swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Llywodraeth Leol**

Dr Chris Llewelyn – Prif Weithredwr, CLlLC
Naomi Alleyne – Dirprwy Brif Weithredwr, CLlLC
Jon Rae – Cyfarwyddwr Adnoddau, CLlLC
Nathan Gardner – Rheolwr Cyllid, CLlLC
Lisa Hayward – Swyddog Polisi Cyllid (Refeniw a Budd-daliadau), CLlLC
Jane Thomas – S151 Cyngor Powys (Ysgrifennydd Cymdeithas Trysoryddion Cymru)

**Swyddogion Llywodraeth Cymru (ac eithrio arsylwyr)**

Judith Cole – Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol
Clare Blake – Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi'r Dreth Gyngor
Ben Crudge – Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi a Diwygio Ardrethi Annomestig
Emma Smith – Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol
Andrea Melvin – Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol
Simon Edwards – Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol
Freya Gregory – Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol (Cofnodion)
Andrew Wagstaff – Ysgrifennydd Preifat
Nia Webb – Ysgrifennydd Preifat
Tal Michael – Cynghorydd Arbennig

**Ymddiheuriadau**

Y Cyng. Mark Pritchard (Wrecsam)
Y Cyng. Anthony Hunt (Torfaen)
Reg Kilpatrick – Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol a Chynllunio

**Eitem 1: Croesawu a Chyflwyno**

1. Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai i'r aelodau am ddod a chroesawodd y Cynghorydd Simon Knoyle i'w gyfarfod FSG cyntaf. Nodwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Anthony Hunt a'r Cynghorydd Mark Pritchard. Cytunodd y grŵp i ddefnyddio Microsoft Copilot i helpu swyddogion i ddrafftio cofnodion y cyfarfod hwn.

**Eitem 2: Diweddariad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**

2. Rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ddiweddariad ar y rheoliadau ardrethi annomestig newydd a diolchodd i'r awdurdodau lleol am eu cefnogaeth wrth ddatblygu a chyflawni'r rhaglen waith hon. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg fod cylch ailbrisio tair blynedd ar gyfer ardrethi annomestig wedi'i gytuno er mwyn osgoi amrywiadau mawr mewn biliau ardrethi busnes. Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg fod yr ailbrisio yn niwtral o ran refeniw yn gyffredinol gan ei fod yn ailddosbarthu atebolrwydd yn hytrach na chodi incwm ychwanegol.

3. Rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg amlinelliad o'r gwaith o gyflwyno lluosyddion gwahaniaethol am y tro cyntaf yng Nghymru, gan gynnwys:

    - Lluosydd safonol ar gyfer y rhan fwyaf o fusnesau
    - Lluosydd is ar gyfer manwerthwyr y stryd fawr
    - Lluosydd ychydig yn uwch ar gyfer busnesau mawr

4. Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg fod cymorth pontio wedi'i roi ar waith i gefnogi busnesau gyda'r cynnydd mwyaf mewn biliau. Bydd hyn yn defnyddio dull sefydledig Cymru ar gyfer cymorth pontio, a ddylai fod yn gyfarwydd i ymarferwyr ALI, ac sydd, yn bennaf, yn adlewyrchu'r cymorth a ddarparwyd yn dilyn yr ailbrisio yn 2023.

5. Y bwriad gyda'r dull oedd y byddai'n awtomataidd i raddau helaeth ar gyfer awdurdodau lleol, ac mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r VOA a thimau Refeniw a Budd-daliadau'r awdurdodau lleol i gefnogi prosesau gweithredu effeithiol, a bydd yn parhau i wneud hynny. Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol i dalu am gostau gweithredu a datblygu meddalwedd sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn.

6. Disgrifiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ddulliau a nodir mewn rheoliadau i fynd i'r afael ag osgoi talu ardrethi annomestig. Y dull cyntaf yw ei gwneud yn ofynnol i dalwyr ardrethi ddarparu gwybodaeth yn rhagweithiol am newidiadau i'r talwr ardrethi a meddiannaeth eiddo. Hefyd, cyflwynwyd

fframwaith cyffredinol i atal gweithgarwch osgoi, a fydd yn darparu offer i ALlau fynd i'r afael â gweithgarwch osgoi yn fwy effeithlon ac effeithiol.

7. Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg fod Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu cymorth dros dro ychwanegol i fusnesau lletygarwch bwyd a diod y flwyddyn nesaf, a fydd yn gweithio yn yr un modd â'r cymorth dros dro ehangach a ddarparwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf ar gyfer y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch. Mater i'r llywodraeth nesaf fydd penderfynu ar ddull ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

8. Aeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ymlaen i drafod caffael ALl, gan nodi y byddai gan gyrff cyhoeddus Cymru gyfanswm gwariant masnachol o tua £50 biliwn dros y pedair blynedd nesaf. Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg bwysigrwydd defnyddio'r cronfeydd hyn i greu mwy o werth i Gymru. Tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg sylw at enghreifftiau sydd eisoes ar y gweill, gan gynnwys prosiectau ysgol newydd sy'n creu prentisiaethau adeiladu i bobl leol, cynlluniau tai cymdeithasol sy'n defnyddio pren o Gymru, ac ychwanegu lotiau lleol i gontractau mawr i greu cyfleoedd i fusnesau bach a chanolig.

9. Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg fod hyblygrwydd yn y Ddeddf Caffael newydd a'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus yn cynnig ffyrdd o dyfu economïau lleol, cyflymu'r cynnydd tuag at sero net, a chryfhau gwaith teg – trwy ddefnyddio contractau yn fedrus. Cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at bartneriaeth gaffael Ardal, a sefydlwyd gan Gaerdydd, Sir Fynwy, Torfaen, a Bro Morgannwg, fel enghraifft o gaffael ar y cyd a oedd yn gwella'r gallu i gyflawni gofynion deddfwriaethol a sicrhau manteision ariannol wrth greu gwerth ychwanegol.

10. Yn olaf, rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ddiweddariad ar y £3.8m o gyllid canlyniadol gan Lywodraeth y DU i gefnogi aelwydydd yr effeithiwyd arnynt gan y cynnydd mewn pris olew gwresogi o ganlyniad i'r gwrthdaro yn y Dwyrain Canol. Sicrhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg y grŵp y byddai'r swm llawn a dderbynnir gan Lywodraeth y DU yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r aelwydydd hynny sydd wedi'u heffeithio fwyaf gan y cynnydd mewn costau.

11. Disgrifiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg y dulliau cymorth sydd eisoes wedi'u darparu:

    - Cryfhau'r Gronfa Cymorth Dewisol
    - Codi terfyn y cymorth o £500 i £750
    - Dau hawliad y flwyddyn yn hytrach nag un
    - Partneriaeth barhaus gyda'r Sefydliad Banc Tanwydd

12. Tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg sylw at her sy'n wynebu Llywodraeth Cymru wrth ddarparu cymorth i'r rhai sydd fwyaf bregus mewn perthynas â'r codiadau hyn – aelwydydd nad ydynt ar y grid. Er bod nifer yr aelwydydd o'r fath yn hysbys i ALlau a Llywodraeth Cymru, nid oes unrhyw ddata uniongyrchol i adnabod yr aelwydydd a'r unigolion hyn. Rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg sicrwydd bod Llywodraeth Cymru yn gweithio ar yr her hon a gofynnodd i aelodau'r grŵp gynorthwyo lle bo angen.

13. Diolchodd y Cynghorydd Andrew Morgan i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg am y diweddariad hwn a gofynnodd a oedd gan Lywodraeth Cymru gynllun ar gyfer mynd i'r afael â'r rhai sy'n manteisio ar yr argyfwng ac yn gorelwa drwy godi prisiau'n ormodol ar gyfer cwsmeriaid bregus fel y rhai sy'n byw mewn aelwydydd nad ydynt ar y grid.

14. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg yn disgwyl clywed gan y Canghellor ynglŷn â'r camau i'w cymryd i atal gorelwa, a sicrhaodd y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU ac ALlau i ddiogelu pobl rhag yr arfer annheg, a chytunodd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i gydweithwyr am unrhyw fesurau a gymerir.

15. Nododd y grŵp mai hwn fyddai cyfarfod olaf Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg cyn etholiad y Senedd ym mis Mai a manteisiwyd ar y cyfle i ddiolch iddo am ei ymrwymiad parhaus i lywodraeth leol yn ei gyfnod fel Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, fel Prif Weinidog, ac yn ei rôl bresennol. Rhannodd y Cynghorwyr Morgan, Burnett a Pritchard hanesion yn dangos y ffyrdd yr oedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg wedi cryfhau'r berthynas rhwng ALlau a Llywodraeth Cymru, ac wedi trosglwyddo'r dull hwn i'r Ysgrifenyddion Cabinet canlynol.

## Eitem 3: Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol

16. Gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai i'r grŵp am eu sylwadau ar gofnodion y cyfarfod blaenorol. Cytunodd y grŵp fod y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol yn gywir.

## Eitem 4: Diweddariad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai

17. Dechreuodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai ei diweddariad trwy drafod y gyllideb a'r setliad terfynol ar gyfer Llywodraeth Leol a gyhoeddwyd ar 20 Ionawr. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai yn falch bod cytundeb y gyllideb gyda Phlaid Cymru yn cynnwys £112.8m ychwanegol i ALlau ei wario ar ddarparu gwasanaethau allweddol. Roedd y cyllid ychwanegol yn golygu y byddai pob ALl yn derbyn cynnydd o dros 4%. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg nad oedd unrhyw newidiadau sylweddol rhwng y setliad drafft a'r setliad terfynol ar wahân i rai mân newidiadau data sydd wedi effeithio ychydig ar ddosbarthiad y cyllid. Cafwyd

cynnydd o £147k yn ardollau'r parciau cenedlaethol a newid bach yn y sylfaen gosod trethi.

18. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai fod y mesurau yn ymwneud ag anghenion addysgol arbennig ac anabledd (AAAA) a nodir yn Natganiad y Gwanwyn y Canghellor yn ddiweddar yn golygu y byddai Llywodraeth Cymru yn derbyn £543m o gyllid adnoddau a £12m o gyllid cyfalaf dros y 3 blynedd nesaf. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai fod y rhan fwyaf o'r cyllid hwn yn ymwneud â phenderfyniadau ar AAAA yn Lloegr, gan fod y £322m yn 2026-27 yn ymwneud â dileu dyled ALlau ac y bydd yn anghylchol. Nid oes cyllid ychwanegol yn 2027-28 fel rhan o hyn, ond bydd £197m yn 2028-29 o ganlyniad i fuddsoddiad newydd i gefnogi diwygio darpariaeth AAAA. Disgwylir i hyn gael ei ymgorffori yn llinell sylfaen cyllideb Llywodraeth Cymru, ond ni fydd hynny'n cael ei gadarnhau tan adolygiad gwariant y flwyddyn ganlynol. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai y byddai'r cyllid ychwanegol ar gael ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru i gefnogi eu blaenoriaethau wrth ystyried yr amrywiaeth o bwysau a'r anghenion penodol yng Nghymru.

19. Fe wnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai gydnabod bod darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol (ADY) wedi bod yn un o'r meysydd pwysau allweddol ar gyllidebau llywodraeth leol dros y blynyddoedd diwethaf, a bod hynny wedi arwain at oblygiadau i wasanaethau awdurdodau lleol. Fe wnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai hefyd gydnabod y byddai buddsoddiad heb ei neilltuo mewn ALlau yn arwain at fudd i blant a gwasanaethau eraill. Mae yna hefyd gyfle ar gyfer dull 'buddsoddi i arbed' trwy raglen drawsnewid ADY i wneud gwahaniaeth hirdymor i unigolion, teuluoedd a gwasanaethau awdurdodau lleol, yn ogystal â mynd i'r afael â phwysau ar gyllidebau yn y dyfodol. Bydd angen i'r llywodraeth newydd ystyried y cyfleoedd cyllido yn eu cyfanrwydd.

20. Cytunodd y Cynghorydd Lis Burnett y byddai llwybr 'buddsoddi i arbed' yn ddefnyddiol ac apeliodd ar y grŵp i weithio gyda'r CLILC i feddwl am gynigion i'w cyflwyno i'r llywodraeth nesaf. Fe wnaeth y Cynghorydd Burnett hefyd gydnabod bod llawer o ALlau eisoes wedi bod yn gweithio ar agendâu trawsnewid, ond cytunodd y byddai hwn yn faes ar gyfer cydweithio.

21. Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai eto mai mater i'r llywodraeth nesaf fyddai penderfynu sut i ddyrannu cyllid ychwanegol. Ond dywedodd ei bod hi a'i chydweithiwr Lynne Neagle, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, yn awyddus i weld swyddogion yn gweithio gyda chydweithwyr llywodraeth leol i ddrafftio rhaglen drawsnewid y gellir ei chyflwyno i Weinidogion newydd i benderfynu arni.

**Eitem 5: Blaenraglen Waith Ddrafft yr Is-grŵp Dosbarthu**

22. Cyflwynodd Judith Cole y flaenraglen waith ddrafft (Papur 2) i'r grŵp, gan esbonio bod adran gyntaf y rhaglen waith yn cwmpasu gwaith tymor byr i sicrhau bod setliad 2026-27 yn cael ei gyflawni'n gywir. Tynnodd Judith sylw at feysydd allweddol, gan gynnwys:

    - Asesu ystadegau'r boblogaeth, gan fod y set ddata poblogaeth yn sail i ran fawr o'r setliad.
    - Deall goblygiadau diwygio'r dreth gyngor. Byddai hyn yn cynnwys ymchwilio i elfennau Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a'r Dreth Gyngor Dybiannol yn y cyfrifiadau sy'n sail i'r setliad.
    - Asesu setiau data budd-daliadau yr effeithiwyd arnynt pan gyflwynwyd Credyd Cynhwysol, a dangos effaith y setiau data hyn.
    - Diweddaru proses y setliad, o ddefnyddio SAS i R a SQL. Pwrpas y gwaith hwn yw moderneiddio mecanwaith proses y setliad yn unol â'r tîm Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn Llywodraeth Cymru.

23. Nododd Judith y byddai Simon Edwards yn trafod ail hanner y rhaglen waith o dan yr eitem nesaf.

24. Cytunodd y grŵp ar y rhaglen waith ddrafft.

**Eitem 6: Diweddariad ar yr Adolygiad Fformiwla**

25. Rhoddodd Simon Edwards ddiweddariad ar y gwaith o adolygu'r fformiwla (Papur 3). Dywedodd Simon fod cynnydd da wedi'i wneud ar y ddau Asesiad wedi'i Seilio ar Ddangosyddion (IBA) addysg mwyaf – addysgu mewn ysgolion meithrin a chynradd a gwasanaethau eraill, ac addysgu mewn ysgolion uwchradd a gwasanaethau eraill. Roedd yr Is-grŵp Dosbarthu wedi gweithio trwy bapurau technegol ar y fformiwlâu hyn ac yn agos at gwblhau methodoleg ar gyfer ail-raddnodi'r IBAs hyn.

26. Tynnodd Simon sylw at anwadalrwydd yn y data sydd ei angen ar brydau ysgol am ddim, a nododd fod gwaith ychwanegol ar y gweill ar elfen teneurwydd poblogaeth y fformiwlâu. Sicrhaodd Simon y grŵp y byddai'n adolygu'r IBA addysg arbennig yn fuan, gyda chyfraniad gan CCAC a chydweithwyr polisi, gan adlewyrchu'r ffordd y mae'r IBA hwn yn fwy dibynnol ar fewnbwn arbenigol a pholisi.

27. Nododd Simon y byddai'r tîm yn symud ymlaen yn fuan i elfennau gofal cymdeithasol y setliad, gyda phapurau ar bob un o'r tri IBA i'w cyflwyno i'r Is-grŵp Dosbarthu cyn dechrau ymarfer casglu data sylweddol gyda CLILC. Nododd y byddai hyn yn fenter sylweddol i bawb sy'n cymryd rhan.

28. Cadarnhaodd Simon fod y tîm yn parhau i fod ar y trywydd iawn i gynhyrchu pwysoliad newydd ar gyfer setliad 2028-29. Nododd y byddai mesurau cyflwyno graddol a lleddfu yn cael eu hystyried yn agosach at y cam gweithredu. Fe wnaeth Simon hefyd gyflwyno Jacob Squires, a oedd wedi ymuno â'r tîm yr wythnos honno i gynorthwyo ar y gwaith dadansoddi.

29. Cododd Jon Rae bryderon y byddai angen i'r ymarfer casglu data gyda CLlLC ddechrau'n fuan er mwyn medru gorffen cyn y terfyn amser, ond nododd eto ei fod ef a chydweithwyr CLlLC yn awyddus i helpu yn y maes hwn. Diolchodd Simon i Jon a'r CLlLC am eu cefnogaeth a sicrhaodd y byddai'r papurau'n cael eu rhannu cyn bo hir.

**Eitem 6: Unrhyw Fater Arall**

30. Caeodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai y cyfarfod trwy ddiolch i'r grŵp am eu cydweithrediad trwy gydol ei chyfnod fel Ysgrifennydd y Cabinet.